Croeso i brosiect CYSYLLTU! Nod tîm CYSYLLTU yw cynnig cyfle i staff gofrestru ar amrywiol gyfleoedd hyfforddi a fyddai'n eich helpu i gefnogi a datblygu lles ac iechyd meddwl myfyrwyr wrth weithio yn eich rôl yn ymwneud â myfyrwyr. Mae'r siart llif hwn yn dangos yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gan CYSYLLTU yn y Drindod Dewi Sant.

1. Ar ôl darllen y wybodaeth yn y ddogfen hon rydym yn eich gwahodd i gwblhau eich datganiad o ddiddordeb ar y wefan drwy'r botwm "Ymgeisiwch Nawr".

2. Bydd Tîm CONNECT yn gwahodd staff i ymgymryd â chwrs Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl (a ddatblygwyd gan Gymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Cymru) os nad ydynt erioed wedi cwblhau'r cwrs hwn neu wedi cwblhau'r cwrs fwy na 3 blynedd yn ôl. Mae'r brifysgol yn gallu cynnig y cwrs am ddim yn Gymraeg a Saesneg.

3. Yn dilyn yr hyfforddiant, bydd yr holl staff yn cael eu hychwanegu at y sianel Teams i Gysylltwyr Staff yn y brifysgol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am bopeth sy'n ymwneud â lles ac iechyd meddwl myfyrwyr. Anogir staff o bob adran i rannu gwybodaeth a digwyddiadau yn y sianel hon.

Yna gallwch ddewis cadw lle ar unrhyw gyfleoedd hyfforddi neu ddigwyddiadau eraill a gynigir gan eich prifysgol ar hyn o bryd. Os hoffech gael manylion gweler y wybodaeth a bostiwyd yn Sianel Teams i Gysylltwyr Staff a/neu ewch i'r dudalen digwyddiadau https://connect-wellbeing.wales/events?institution=swansea_university&category=workshops. Dewis arall yw e-bostio cysylltu-connect@uwtsd.ac.uk